# Duw yn galw Abraham a Sara



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn Genesis 12 galwodd Duw ar Abram a Sarai i symud yn bell i ffwrdd i wlad newydd. Gofynnodd Duw iddo adael ar ôl cysur cartref am rywle newydd.

Video playlist

**Pwyntiau allweddol:-**

- Dylwn fod yn ufudd i Dduw bob amser.
- Dylwn ymddiried yn Nuw am y cam nesaf, hyd yn oed pryd dydyn ni ddim yn gwybod pen y daith.

# Canllaw y Wers

Mae symud i rywle newydd bob amser yn anodd. Os yw'n gartref newydd mewn gwlad wahanol neu'n ddosbarth newydd yn yr ysgol, mae'n anodd gadael teulu a ffrindiau ar ôl. Dydyn ni ddim yn hoffi gadael yr adnabyddus am yr anadnabyddus. Siaradwch am yr amser gadawsoch am le newydd. Gofynnwch i'ch plant am yr amser aethon nhw i rywle newydd. Sut oeddynt yn teimlo? Gofynnwch i'ch plentyn eich helpu i adeiladu pabell. Defnyddiwch blancedi, cadeiriau neu unrhyw beth sydd gennych. Pan rydych wedi gorffen dringwch i mewn a darllenwch Genesis 12. Wrth adnod 4, dewch allan o'r babell fel arwydd o Abraham a Sara yn gadael eu cartref ac yn rhoi eu ffydd yn Nuw.

Mae Abraham yn un o'r brif gymeriadau yn y Beibl ac yn hanes y byd, felly mae dealltwriaeth o'r darnau yma yn y Beibl yn creu sylfaen arbennig. Rhannwch sut oedd Abraham yn berson go iawn, fel ni. Roedd yn gwneud camgymeriadau. Roedd yn teimlo'n hapus ac yn ofnus. Mae Duw yn gwybod beth rydym fel yn ein calon ac mae'n ein galw i gerdded mewn ffydd ac i ymddiried ynddo yn union fel yr ydym.

Cuddiwch anrheg fach rhywle yn yr ystafell. Dywedwch wrth eich plentyn bod gennych wobr arbennig iddynt. Gofynnwch iddynt am fynd i gasglu eu gwobr. Yn lle dweud ble mae'r wobr, rhowch gyfarwyddiadau cam wrth gam iddynt gyrraedd yno. (I'r plant hŷn, gallwch hefyd eu mygydu). Er enghraifft, cymerwch ddwy gam ymlaen, trowch i'r dde ac felly yn y blaen. Rhannwch fel mae Duw yn gofyn i ni 'gerdded trwy ffydd', ac i ymddiried ynddo gyda phob cam. Darllenwch a dysgwch Hebreaid 11:8 "Ffydd Abraham wnaeth iddo wrando ar Dduw."

Dywedodd Duw wrth Abraham am y bendithion rhyfeddol byddai'n dod trwy ufuddhau. Neidiwch ymlaen i Genesis 22: 17-18 lle mae Duw unwaith eto yn dweud wrth Abraham byddai'n ei wneud yn deyrnas enfawr, mor niferus â'r tywod ar lan y môr. Dangoswch lun o awyr y nos neu rhowch lond llaw o dywod i'r plant deimlo.

Yn y wers nesaf byddwn yn parhau gyda genedigaeth Isaac. Eglurwch fel oedd Duw nid yn unig wedi cadw ei addewid trwy roi mab i Abraham a Sara ond roedd yr addewid yma wedi ei gyflenwi yn bennaf yn yr Iesu. Cyfeiriwch at Mathew 1. Trwy'r Iesu, gall pob iaith a llwyth cael eu bendithio gyda'r anrheg goraf i gyd.

© 2021 truewaykids.com



Addawodd Duw byddai'n bendithio Abram a'i wneud yn genedl enfawr, cymaint â'r sêr yn y nen.


Roedd Abram a Sarai yn byw mewn pebyll ac yn symud i ble bynnag dywedodd Duw wrthynt am fynd.

Rhoddodd Abram a Sarai eu ffydd yn Nuw.






Un diwrnod siaradodd Duw gyda dyn o'r enw Abram a dywedodd, "Dos i ffwrdd o dy wlad a dy fobl i wlad byddaf yn dangos i ti. Byddaf yn dy wneud yn genedl enfawr ac yn dy fendithio di. Yn wir, oherwydd ti bydd holl bobl y byd yn cael eu bendithio."



Dywedodd Abram wrth ei wraig Sarai beth ddywedodd Duw.

Rhoddodd Abram a Sarai eu ffydd yn Nuw.

Dechreuon gasglu eu pethau i gyd at ei gilydd.

Dywedon nhw hwyl fawr i'w teulu a'u ffrindiau.





Felly aeth Abram, fel dywedodd Duw wrtho. Aeth a'i wraig Sarai, ei nai, Lot, a'i feddiannau i gyd.

Gyda'i gilydd fe deithion nhw i wlad arall.

Fe adawon nhw eu hen fywyd ar ôl am byth.

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Gwylio'r Sêr

Os ydych yn ddigon ffodus i gael awyr glir, ewch tu allan ac edrychwch i fyny ar y sêr. Ar y llaw arall gallwch edrych ar y we am fideo neu luniau.

Gofynnwch i'ch plant ddychmygu eu bod yn Abraham neu Sara, pan ddywedodd Duw wrthynt byddai eu teulu fel y sêr yn yr awyr.





## Chwarae Tywod

Mae plant wrth eu bodd yn chwarae gyda thywod. Gadewch i'ch plentyn chwarae mewn pwll tywod, ar lan y môr neu llenwch gynhwysydd gyda thywod chwarae.

Ar ryw adeg, gallwch geisio cyfri allan deg gronyn o dywod. Rhannwch eto addewid Duw o Genesis 22.

## Adeiladwch ffau

Darganfyddwch rhai pethau tu mewn neu tu allan i adeiladu ffau. Wedi'i orffen pam nad ei ddefnyddio i ddarllen y stori wythnos yma?

Os ydych wir yn teimlo'n anturiaethus, gosodwch babell yn yr ardd.




© 2021 truewaykids.com

# Helpwch Abraham a Sara ddarganfod y ffordd i'w cartref newydd.



© 2021 truewaykids.com

# Amlinellwch o gwmpas y sêr a lliwiwch.



Sawl seren alla di weld ar y dudalen

© 2021 truewaykids.com

Dychmygwch eich bod yn mynd ar daith. Ar y tudalen canlynol, trefnwch yr eitemau isod am y pen-taith cywir.



© 2021 truewaykids.com




# Agos neu bell







Agos ○ Pell ○



Agos ○ Pell ○





Agos ○ Pell ○




Agos ○ Pell ○



Agos ○ Pell ○




Agos ○ Pell ○

© 2021 truewaykids.com

# Golygfa splater paent

## Beth fyddwch angen:


- Papur tywyll neu gerdyn
- Papur gwyrdd neu liw tywod
- Paent
- Brwsh paent neu hen frwsh dannedd
- Taflen dempled
- Siswrn
- Glud




## Beth i'w wneud:



Dyfriwch rhai liwiau o baent




Trochwch y brwsh yn y paent a'i ysgwyd dros y papur



Gadewch i'r papur sychu



Torrwch allan lluniau templed




Rhwygwch y papur i wneud mynyddoedd




Gludwch popeth gyda'i gilydd

© 2021 truewaykids.com




© 2021 truewaykids.com




© 2021 truewaykids.com

© 2021 truewaykids.com






© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com

# Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Father Abraham

https://youtu.be/5o_J30x6E6s

## God Always Keeps His Promises

https://youtu.be/WzrFkvn1LGg

## Trust and Obey

https://youtu.be/0SWoGIWcvN4



# Amser gweddi

Dywedwch "diolch" i Dduw am Ei addewidion

Gofynnwch i Dduw am gymorth i roi ffydd i mewn i weithredu

# Wythnos Nesaf

Genedigaeth Isaac - Genesis 21

Os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, ymunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol gydag e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2021 truewaykids.com